

Aflibercept i drin oedema macwlaidd diabetig

Mehefin 2015

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir pigiadau [aflibercept](#) (Eylea) fel triniaeth bosibl ar gyfer rhai pobl â phroblemau gyda'u golwg wedi'u hachosi gan [oedema macwlaidd diabetig](#), fel yr eglurir isod.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes oedema macwlaidd diabetig gennych a bod [retina canolog](#) eich llygad 400 micrometr o drwch neu fwy cyn triniaeth, a bod eich meddyg o'r farn mai aflibercept yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai pigiadau aflibercept fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os ydych eisoed yn cael pigiadau aflibercept ar gyfer oedema macwlaidd diabetig a bod trwch y retina canolog llai na 400 micrometr adeg dechrau'r driniaeth, dylech allu parhau i'w cael nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau iddynt.

Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd aflibercept oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Y cyflwr a'r driniaeth

Mae oedema macwlaidd diabetig yn effeithio ar olwg pobl â diabetes. Y macwla yw rhan ganol y retina yng nghefn y llygad. Ystyr oedema yw hylif yn cronni. Mewn oedema macwlaidd diabetig, ceir tyfiant abnormal o bibellau gwaed newydd yn y macwla. Mae hylif yn gollwng o'r pibellau hyn, gan achosi i'r macwla chwyddo a dod yn fwy trwchus, gan arwain at broblemau gyda'r golwg.

Rhoddir aflibercept (Eylea) drwy bigiad i mewn i'r llygad. Mae'n gweithio drwy atal sylwedd sy'n ysgogi twf abnormal pibellau gwaed yn y macwla.

Ffynonellau cyngor a chymorth

- Diabetes UK, 0345 123 2399, www.diabetes.org.uk
- Fight for Sight, 0207 264 3900, www.fightforsight.org.uk
- Y Gymdeithas Facwlaidd, 0300 3030 111, www.macularsociety.org
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB), 0303 123 9999, www.rnib.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1410-4